EO 13

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

# Canlyniadau Addysgol Plant o Gartrefi Incwm Isel

Mis Medi 2013

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

## Canlyniadau Addysgol Plant o Gartrefi Incwm Isel

Croesawa Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) y cyfle hwn i ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Ganlyniadau Addysgol Plant o Gartrefi Incwm Isel.

Mae UCAC yn undeb llafur sy'n cynrychioli 5,000 o athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr addysg bellach ac addysg uwch ym mhob rhan o Gymru.

1. **Effeithiolrwydd polisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru o ran lliniaru'r cysylltiad rhwng tlodi a chanlyniadau addysgol, gan gynnwys y 'Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi'; polisïau perthnasol ar addysg; a pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, fel Cymunedau yn Gyntaf.**

   Mae tlodi yn ormod o broblem yng Nghymru i ddisgwyl i ysgolion unigol lwyddo i leddfu ei effaith ar ganlyniadau.

   Mae angen strategaeth ac ariannu ar lefel genedlaethol ac arweiniad ar lefel sirol i ddechrau mynd i'r afael â'r fath broblem. Mae angen cydnabod mai dim ond cyfrannu at ymateb i'r broblem y gall ysgol ei wneud ac nad mewn canlyniadau yn unig y mae mesur llwyddiant wrth ddelio â'r mater hwn. Mae i dlodi sawl gwedd sy'n ehangach nag incwm teulu, ac mae ysgolion yn wynebu'r her o ymateb i'r ystod lawn o nodweddion ac effaith tlodi.

   Tynnwn sylw'r Pwyllgor at adroddiad y Joseph Rowntree Foundation, 'Poverty and Low Educational Achievement in Wales: Student, Family and Community Interventions', gan David Egan (Chwefror 2013). Un o gasgliadau'r adroddiad yw bod angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno polisïau sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr, teuluoedd a chymunedau, yn ogystal â pholisïau sy'n ymwneud yn bennaf â dysgu ac addysgu, ac yn enwedig felly yng nghyd-destun y Grant Amddifadedd Disgyblion.

2. **Rôl Llywodraeth Cymru, consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion a chyrff llywodraethu o ran mynd i'r afael â'r mater hwn, a'r rhesymau dros y gwahaniaethau rhwng ysgolion o ran lliniaru'r cysylltiad rhwng tlodi a chanlyniadau addysgol.**

   Mae hi'n gallu bod yn anodd i ysgol ddarparu cefnogaeth i grŵp penodol o ddisgyblion ac ar yr un pryd osgoi'r perygl o achosi stigma, fel sydd wedi digwydd mewn rhai amgylchiadau gyda'r ddarpariaeth cinio am ddim.

   Yr ateb yw darparu cefnogaeth yn gyffredinol i bawb e.e. cyfleusterau i wneud gwaith cartref, gwasanaeth mentora. Gall hyn beri bod pob disgybl yn y grŵp yn gwneud cynnydd, a'r bwlch felly rhwng cyrhaeddiad y ddwy garfan prin yn lleihau. Mewn rhai amgylchiadau mae'r fath gefnogaeth yn profi'n wrthgynhyrchiol gan nad y rhai o gefndiroedd difreintiedig sy'n manteisio fwyaf ar y ddarpariaeth ac o ganlyniad mae'r bwlch yn cynyddu.

   Mae UCAC yn cefnogi unrhyw ymgais i rannu arfer da; mae angen sicrhau adnoddau digonol i ryddhau staff i rannu profiadau a'u trafod. Fodd bynnag, rhaid gochel rhan y rhagdybiaeth bod strategaeth sydd wedi profi'n llwyddiant mewn un cyd-destun yn mynd i brofi yr un mor llwyddiannus mewn cyd-destun arall.

3. **A yw polisïau Llywodraeth Cymru yn ymdrin yn ddigonol â materion sy'n ymwneud ag ymgysylltu â rhieni mewn perthynas â chanlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel, ac a ydynt yn ymdrin â safbwyntiau a phrofiadau plant a phobl ifanc o'r cartrefi hyn mewn perthynas â'r rhwystrau perthnasol.**

   Mae UCAC wedi adrodd mewn ymgynghoriad blaenorol am y pryder bod y Gwasanaeth Lles Addysg wedi ei leihau. Mae'r swyddogion hyn yn aml yn llinyn cyswllt gyda'r teuluoedd dan sylw ac yn fodd i wella presenoldeb ac ymlyniad y disgyblion a'r rhieni i'r ysgol a'i gwaith.

   Tynnwn sylw'r Pwyllgor at adroddiad y Joseph Rowntree Foundation, 'Poverty and Low Educational Achievement in Wales: Student, Family and Community Interventions', gan David Egan (Chwefror 2013). Un o gasgliadau'r adroddiad yw bod angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno polisïau sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr, teuluoedd a chymunedau, yn ogystal â pholisiau sy'n ymwneud yn bennaf â dysgu ac addysgu, ac yn enwedig felly yng nghyd-destun y Grant Amddifadedd Disgyblion.

4. **Materion cyllido perthnasol, gan gynnwys effeithiolrwydd y grant amddifadedd disgyblion ac effeithiau disgwyliedig y canllawiau ar gyfer 2013-2015, a gyhoeddwyd yn ddiweddar.**

   Mae ysgolion wedi wynebu toriadau sylweddol yn eu cyllidebau dros y blynyddoedd diwethaf sydd wedi arwain at ddosbarthiadau mwy. Nid yw'r arian grant mewn gwirionedd yn gwneud mwy na dechrau dadwneud effaith hynny ar y grŵp penodol yma o ddisgyblion.

5. **Y costau sy'n gysylltiedig ag addysg (tripiau, gwisg ysgol, offer chwaraeon, ac ati) ac effeithiolrwydd dull Llywodraeth Cymru o sicrhau nad yw plant o gartrefi incwm isel o dan anfantais yn hyn o beth.**

   Os yw ysgol i ddarparu profiadau fel hyn i'r grŵp yma o ddisgyblion mae'n wynebu sawl her:

   - adnabod y grŵp a phennu meini prawf o bwy sydd i dderbyn cymorth
   - canfod yr arian i ddarparu'r gwasanaeth i'r grŵp – sy'n aml yn doriad mewn pennawd arall
   - darparu'r gwasanaeth heb stigma
   - bod yn atebol am y gwariant hwn yn wyneb honiadau bod rhai teuluoedd yn manteisio i'r eithaf ar bob 'haelioni'

6. **Materion sy'n berthnasol i brydau ysgol am ddim yn y cyd-destun hwn, fel y nifer sy'n manteisio arnynt, y stigma tybiedig sy'n gysylltiedig â hawlio prydau ysgol am ddim, y defnydd o brydau ysgol am ddim fel dangosydd anuniongyrchol o dlodi plant, ac effaith yr angen i ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd a fydd yn deillio o gyflwyno'r system Credyd Cynhwysol.**

   Nid yw ystadegau hawlio prydau am ddim yn llinyn mesur digon dibynadwy i fod yn seilio cymaint o ddatganiadau cyhoeddus arno e.e. bandio. Gall penaethiaid yn aml gyfeirio at ddisgyblion o deuluoedd a fyddai â'r hawl i ginio am ddim ond sydd ddim yn manteisio ar hynny oherwydd y stigma neu ragdybiaethau am gynnwys ac ansawdd y cinio ysgol. Mewn rhai ardaloedd gweledig mae canran uchel o deuluoedd yn methu o drwch blewyn i hawlio prydau am ddim am fod y ddau riant yn gweithio a'r ysgol o ganlyniad yn cael ei hun mewn 'teulu' o ysgolion mewn ardaloedd cymharol ffyniannus.